



Gwybodaeth am ryddhau cleifion **ar ôl archwiliad o dan anesthetig +/- biopsïau** **(Panendosgopi/Microlaryngosgopi/Nasendosgopi Anhyblyg)**

Ôl-ofal:

- Efallai y byddwch chi'n profi rhywfaint o anghysur ar ôl eich triniaeth.
 - Dylai hyn setlo gyda paracetamol.
 - Mae hyn fel arfer yn para am 1-2 ddiwrnod.
- Gorffwys y llais:
 - Efallai y bydd angen i chi gymryd dau ddiwrnod i ffwrdd o'r gwaith i orffwys eich llais os ydym wedi edrych ar eich llinynnau lleisiol
 - Bydd eich llawfeddyg yn eich cynghori ar hyn.
- Gwnewch ymarfer corff ysgafn cymaint ag y gallwch ond ceisiwch osgoi gweithgarwch egnïol.
- Gallwch chi fwyta ac yfed fel arfer ar y cyfan
 - Dylech osgoi alcohol am 48 awr ar ôl anesthetig cyffredinol.

Canlyniadau:

Byddwch yn cael llythyr yn rhoi canlyniadau eich biopsïau neu'n cael apwyntiad dilynol dros yr wythnosau nesaf.

Os nad ydych wedi clywed ar ôl 6 wythnos, cysylltwch ag ysgrifennydd ENT eich llawfeddyg yn Ysbyty Athrofaol Cymru drwy'r switsfwrdd – 02920 747 747.

Ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar unwaith os oes gennych:

Waedu trwm o'ch ceg, trwyn neu wddf.

- Mae hyn yn annhebygol, ond mae risg fach, yn enwedig os yw biopsïau wedi'u cymryd.
- Mae'n normal cael rhywfaint o boer pinc, wedi'i staenio â gwaed, ar ôl biopsi, dylai hyn setlo ar ôl ychydig ddyddiau.

Gwybodaeth ychwanegol:

<https://www.entuk.org/patients/conditions/51/microlaryngoscopy>

<https://www.cancerresearchuk.org/about-cancer/tests-and-scans/panendoscopy>



Rhifau cyswllt

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:

Ystafell 9 Cleifion Allanol ENT (Llun-Gwener 9am-5pm) **02921 843174**

Hwb Llawfeddygol (Dydd Llun i Ddydd Gwener 7am-7pm): **02921 826510 neu 02921 826348**